MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

Rheoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

1. Cyflwynir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog 30A.2. Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod yn rhaid cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a bod modd cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw Offeryn Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn unol â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cyflwynwyd Rheoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 ("Rheoliadau 2018") gerbron y pwyllgorau sifftio yn nau Dŷ'r Senedd ar 20 Tachwedd 2018. Mae'r Rheoliadau ar gael yn:

   https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-marine-environment-amendment-eu-exit-regulations-2018

Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan

3. Amcan yr OS yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd fel y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Hefyd, mae'n cynnwys diwygiadau gweithredol.

4. Yn ogystal, mae'r OS yn diwygio:

- Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009")

Darpariaeth berthnasol i'w gwneud gan yr OS

5. Mae'r gwelliannau a wnaed i Ddeddf 2009 gan Reoliadau 2018 yn ymwneud â'r darpariaethau canlynol:

   a) Adran 60(8) i adlewyrchu gwelliannau i ddeddfwriaeth datganoli'r Alban o dan Ran 3 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
   b) Adran 76(2) i sicrhau bod modd gweithredu'r darpariaethau ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
   c) Adran 123(5) i sicrhau bod modd gweithredu'r darpariaethau ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
   d) Adran 141 yn dileu'r diffiniad o 'third country vessel.'
   e) Adran 244 yn darparu y bydd llongau Aelod-wladwriaethau'r UE a llongau o Gibraltar yn cael eu trin fel llongau o drydedd wlad.

6. Mae’r newidiadau a nodir ym mharagraff 4.3 (c) i (e) yn ymwneud â swyddogaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a allai fod yn destun Bil y Cynulliad Cenedlaethol.

7. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rywfaint o gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer yr amgylchedd morol yng Nghymru, yn amodol ar faterion a gedwir yn ôl fel morgludiant, olew a nwy. Hefyd, mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol yn ymwneud â Chymru yn unol ag adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (dynodiad at ddibenion a.2(2) Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn y meysydd hynny lle mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol yn yr amgylchedd morol). Mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol amrywiol eraill o dan nifer o ddeddfiadau yn ymwneud â Chymru a Pharth Cymru.

Pam y mae’n briodol i’r OS wneud y ddarpariaeth hon?

8. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â’r polisi unioni. Felly, byddai llunio OS gwahanol yng Nghymru a Lloegr er mwyn unioni’r cyfeiriad perthnasol yn arwain at ddyblygiad a chymhlethdod diangen o’r llyfr statud. Trwy gydsynio i’r OS hwn, bydd modd sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar waith ledled Cymru a Lloegr, sy’n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

26 Tachwedd 2018